


( Parhâd o'r dudalen flaenorol )

Ni fwriadaf ddatgelu rhagor am ei bywyd fan hyn, ond gobeithiaf y bydd y sylwadau bras hyn yn ddigon i godi awydd yn narllenwyr Y Casglwr i brynu'r gyfrol a'i mwynhau. Cofier, hefyd, mai Saesnes yw Hilda ond bod ei chariad hi tuag at yr Iaith Gymraeg wedi esgor ar gyfrol amhrisiadwy mewn Cymraeg goeth a chyhyrog; mae honno'n stori ynddi'hun.

Lis Williams

**Camera'r Cymro, Raymond Daniel,**  
geiriau Lyn Ebenezer, tud. 232 Y Lolfa  
£19.95



Mae'r llyfr hwn yn cloriannu gwaith toreithiog un a fu'n treulio'i yrfa yn y cysgodion yn cofnodi digwyddiadau â'i gamera. Ymddangosodd ffotograffau'r awdur - llawer ohonynt sydd bellach yn eiconau cenedlaethol - ym mhapurau newydd Y Cymro a'r Cambrian News ynghyd â llu o rai eraill. Cofnodir digwyddiadau ym myd adloniant, gwleidyddiaeth a chwaraeon, a bu hefyd yn portreadu'r Gymru wledig a'r cymeriadau unigryw a berthynai i gefn gwlad.

Yn ei gyflwyniad dywed Lyn Ebenezer, 'Hwyrach mai ei gynnyrch mwyaf toreithiog oedd y lluniau hynny a dynnwyd yng ngwahanol brotestiadau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg - casgliad sydd bellach yn y Llyfrgell Genedlaethol. Llwyddodd i ddal ysbryd Cymry Cymraeg ifanc y cyfnod, eu hasbri a'u digofaint, eu gwylltineb a'u hurddas wrth frwydro i achub ein trysor mwyaf'.

Rhennir y llyfr i benodau hwylus, megis Arwyddion o'r Amserau; O Steddfod i Steddfod; Gorau Cymro; Ar Lwyfan, sgrin a record, ac yn y blaen

Wrth bori yn y llyfr cawn ddigwyddiadau a darluniau o'r enwog, megis llun o Waldo yn gosod blodau ger y maen coffa yng Nghilmeri adeg y rali yn erbyn yr Arwisgiad yn 1969 gyda D.J. Williams a Dafydd Iwan, sy'n dwyn i gof y cyffro yn y dyddiau hynny, fel malu'r arwyddion ar gorymdeithio drwy Aberystwyth; ymgyrch dros Sianel Gymraeg; protest yn erbyn ehangu a Seisnigo'r Brifysgol; ymgyrch yn erbyn gwastraff Niwclear a chefnogaeth yr actores Julie Christie i'r mudiad, a llawer mwy.

Dengys y bennod 'O 'Steddfod i 'Steddfod' mai cofnodau mwyaf cynhyrchiol y flwyddyn i Raymond Daniel fyddai' pan ymwelai ag Eisteddfod yr Urdd, Y Brifwyl, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ac Eisteddfod

Pantfyfedwen. Mae'r lluniau yn dwyn i gof y diwyddiadau mwyaf cofiadwy, megis Cadeirio a Choronî'r mawrion, a'r lluniau o'r sgyrsio dibendraw ymysg ffrindiau ar y maes, a llun Eirwyn Pontshan yn yfed potel o laeth, sy'n ymddangos ar furlun Y Lolfa,


Mae'r bennod ar Lwyfan, Sgrin a Record hefyd yn werthchweil gyda lluniau o Richard Burton gyda dau o'i frodyr a Liz Taylor, a'r llun bythgofiadwy o Ryan Davies a Burton; Geraint Evans a Brian Johnson ar recordio Down your Way.; R. Alun Edwards - Llyfrgellydd Dyfed, Roy Stephens, ar gyfer ei gyfrol Odliadur, a'r englyn i Raymond yn diolch iddo am ei gymorth.

*Handlwr yr Olwen feindlws - a lluniwr  
Y lluniaid o gorpws,  
Dan dy law dyn yn dlws  
A hen fenyw yn fenws.*

Yn ogystal â bod yn awdur y testun, mae Lyn Ebenezer wedi ychwanegu at gynnwys y stôr o straeon difyr a chapsiynau digrif.

Mwynheais y gyfrol yn fawr gan mai llyfr darluniadol ar hanes ein hoes ni ydyw. Mae'n sicr yn sbardun i'r cof. Mae hefyd yn anrheg bendigedig. Prynwch hi a mwynhewch.

**Cwm Cul a Garw, R. Elwyn Hughes,**  
57 tud. pris £4.00



Yn is-deitl, fel petai, ar y clawr, ceir y geiriau 'nodiadau ar hanes cymoedd Claerwen ac Elan', ond, wir, mae yna fwy na 'nodiadau' yma. Mae'r llyfr 57 tudalen yn adrodd hanes diddorol y ddau gwm cyn eu boddi gan Ddinas Birmingham ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

'Natur hunangofiannol, anecdotaidd a lled bersonol' sydd i'r 'nodiadau' hyn yn ôl yr awdur, gan iddo gael ei godi yn Rhaeadr pan oedd nifer o gyn-drigolion y cwm yn dal i fyw yn yr ardal. Teimla ei fod 'efallai yn cario ym mhlygion fy ymennydd elfen o'r euogrwydd dirprwyol hwnnw a oedd, o bosib, wedi'i blannu ynom ni i gyd yn yr ardal.'

Clywn fod Gwallter Mechain a Iolo Morgannwg wedi ymweld â'r Cwm sawl gwaith rhwng 1802 ac 1811, a'r bardd o Sais, Shelley, a ymddiddorai mewn cigwrthodiaeth, â chysylltiad â'r ddau blasty, Cwm Elan a

Nantgwyllt. Er mai ychydig o Arlunwyr a ymwelai â'r cymoedd oherwydd 'nid ystyrid yr ardal yn eithriadol o ddeniadol,' bu'n boblogaidd ymysg y Pysgotwyr, ac ysgrifennodd y Parch. Charles Kent ei lyfr pysgota, By Celtic Waters, 1894, gan ddisgrifio'n fanwl ei brofiadau yn pysgota yn afonydd Elan a Chlaerwen.

Cymdeithas wasgaredig ond cymharol glos, a chymuned Gymraeg ei hiaith, oedd yno, a thenantiad oedd y rhan helaethaf o'r rhai a ddisodlwyd gan Birmingham 'gan fod Elan a Chlaerwen yr adeg honno yn nwylo nifer gymharol fechan o dirfeistri.'

Un Capel Cymraeg oedd yno, sef, Bethania, a godwyd gan y Bedyddwyr yn 1845 i gymryd lle Lannerch-y-cawr, 'y tŷ annedd a chyfleus lle arferid addoli.'

Cefais y llyfr yn hynod o ddiddorol, ac yn wir, mae wedi codi awydd arna'i i droi i'r chwith ar groesffordd Rhaeadr yn lle dilyn yr hen ffordd orgyfarwydd i'r gogledd ar yr A470.

Gellir prynu copi oddi wrth yr awdur, Dr. R. Elwyn Hughes, Bryn Catwg, Pen-tyrch, Caerdydd, CF4 8QF

## LLYFRAU YSTWYTH

LÔN ROSMARI,  
ABERYSTWYTH, SY23 1DX

Ffôn : 01970-639479

1. Thomas Pennant, The Journey from Chester to London 1782, 22 plates. . . . . £120.00
2. V.Nash-Williams, Early Christian Monuments of Wales, 1950. . . . . £110.00
3. Ifano Jones, History of Printing and Printers in Wales 1925. Minor cropping of index pages, no text lost. . . . . £50.00
4. Gwenogvryn Evans, The Black Book of Carmarthen, Pwllheli, 1907. . . . . £35.00
5. Ivor Bowen, The Statutes of Wales (1908) . . . . . £25.00
6. The Cambrian Tourist or Post-Chaise Companion, 5th edn. 1821, . . . . . £50.00
7. Carnhuanawc, Hanes Cymru a Chenedl y Cymry, 1842.
8. Cenydd Morus, The Fates of the Princes of Dyfed, 1914 . . . . . £10.00
9. Transactions of the Cardiganshire Antiquarian Soc., 3,4,5, 7, 8, bound in 1. . . . . £25.00
10. F.J.Warren, The History and Antiquities of St Mary's Haverfordwest 1914, . . . £18.00
11. R.Williams, History & Antiquities of the town of Aberconwy, 1835, poor binding. £35.00
12. The Episcopal Registers of the Diocese of St David's, 3 vols complete, . . . . £40.00
13. C. O'Rahilly, Ireland and Wales, (1924) £18.00
14. Star Chamber Proceedings concerning Wales (1929) . . . . . £25.00
15. T.Gwynn Jones, Rheingerddi'r Gogynfeirdd, 1915, . . . . . £4.00
16. Fletcher Moss, Pilgrimages to Old Homes, 1903 . . . . . £20.00
17. Ian Soulsby, The Towns of Medieval Wales, 1983. . . . . £12.00
18. Frances Lynch, Prehistoric Anglesey, (1970), . . . . . £18.00
19. J.Rhysydd Williams, Hanes Rhosllannerchrugog, 1945. . . . . £5.50
20. W.Crick & J.Wadsworth, Canrif o Hanes Banc Gogledd a Deheudir Cymru, . . . . £5.50
21. John Wynne, A Report of the Deanery of Penllyn and Edeirnionl (1730, ed. G. M. Griffiths 1955 (o'r Merioneth Miscellany) . . £5.00
22. J.E.Lloyd, A History of Wales (1912) . £45.00
23. E.A.Lewis, The Medieval Boroughs of Snowdonia (1912) . . . . . £25.00

Cludiant yn ychwanegol